# PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 4 Mehefin, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, Dr. I.J. Johnson and E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg)

80 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

81 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

82 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

83 MANYLION RECRIWTIO A DETHOL AR GYFER SWYDDI PENNAETH ADY A LLES, PENNAETH GWASANAETHAU CYMDOGAETH A RHEOLWR GWEITHREDOL (PENNAETH STATUDOL) GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD (PW) -

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad a oedd yn nodi'r trefniadau recriwtio a dethol ar gyfer swyddi Pennaeth ADY a Llesiant, Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Rheolwr Gweithredol (a Phennaeth statudol) Gwasanaethau Democrataidd.

Cynigiwyd hysbysebu’r swyddi (yn fewnol ac yn allanol) cyn gynted ag sy’n ymarferol bosibl gyda’r broses yn debygol o gychwyn yn gynnar ym mis Mehefin 2024.

Dywedodd y Cynghorydd Carroll ei fod yn gefnogol i'r Pwyllgor ystyried mwy nag un ymgeisydd yn y cam cyfweld terfynol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gymharu ymgeiswyr addas.  Mewn ymateb dywedodd yr Arweinydd y byddai hyn yn cael ei symud ymlaen lle byddai mwy nag un ymgeisydd â chymwysterau addas yn cael ei nodi yn ystod camau cynharach y broses gan Swyddogion.

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo'r trefniadau recriwtio a dethol fel y'u disgrifir ar gyfer y tair swydd yng nghorff yr adroddiad.

(2) Y dylid dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, y Cyfarwyddwr Gwasanaeth a Phennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol i symud ymlaen:

- hysbysebu'r swyddi;
- bwrw ymlaen â'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer llunio rhestr hir ac unrhyw asesiad angenrheidiol o ymgeiswyr cyn llunio rhestr fer;
- llunio rhestr fer derfynol ar gyfer cyfweliadau, y byddai'r cyfweliadau'n cael eu cynnal gan gyfarfodydd y Pwyllgor hwn yn y dyfodol, ac i;
- cytuno ar gostau a gofynion adnoddau mewn perthynas â'r prosesau sydd eu hangen i ddilyn y prosesau recriwtio a dethol

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod y penodiadau yn cael eu symud ymlaen yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

(2) Caniatáu i faterion gael eu symud ymlaen cyn cam olaf y recriwtio.